NEWYDDION

# barcud

GAEAF 2023



ENNILL £200

gweler tud. 7

# Neges gan Alison Thorne, Cadeirydd Barcud

“Ar ôl tua 16 o flynyddoedd wrth y llyw - yn adeiladu Tai Ceredigion i ddechrau, ac yna’n arwain y gwaith integreiddio ar ôl i Tai Ceredigion a Tai Canolbarth Cymru uno â’i gilydd i ffurfio Barcud - mae Steve Jones wedi penderfynu mai dyma’r adeg iawn iddo symud ymlaen i fwynhau heriau newydd. Hoffai Bwrdd Grŵp Barcud ddiolch i Steve am ei waith a’i ymrwymiad dros y blynyddoedd a dymuno’n dda iddo. Rydym yn awr yn dechrau chwilio am Brif Weithredwr newydd i’r Grŵp, i arwain Barcud i’r dyfodol. Yn y cyfamser, bydd y Tîm Arwain yn dal i sicrhau bod gwasanaethau a gweithrediadau hanfodol Barcud yn parhau, gyda chymorth y bartneriaeth gref sydd gennym â’n tenantiaid drwy Grŵp Monitro Barcud.”

Meddai Steve Jones: “Mae wedi bod yn fraint cael arwain y gwaith o greu Tai Ceredigion yn dilyn trefniant Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn 2009, ac yna arwain y broses uno yn 2020 i ffurfio Barcud, gan weithio gyda thimau selog o staff ac aelodau ymroddgar y Bwrdd. Rwy’n falch iawn o’r modd yr ydym wedi cyflawni gwelliannau o bwys er mwyn cynnig cartrefi carbon isel; wedi datblygu cartrefi newydd â chymysgedd o ddeiliadaethau; ac wedi cyflwyno gwasanaethau cymunedol gwledig dwyieithog. Yn bennaf oll, rwy’n ddiolchgar i gynrychiolwyr y tenantiaid, sydd wedi bod yn cydweithio â ni i ddylunio a monitro’r gwaith hwn, sy’n golygu ein bod wedi cael ein cydnabod gan y sector fel sefydliad arfer gorau o safbwynt ymgysylltu â thenantiaid. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i Barcud wrth iddo adeiladu ar y sylfeini cadarn hynny yn y dyfodol.”

Mae’r broses recriwtio i benodi Prif Weithredwr newydd i Grŵp Barcud ar y gweill erbyn hyn. Rydym yn edrych ymlaen at rannu newyddion cyffrous am benodiad newydd â chi yn y rhifyn nesaf o Newyddion Barcud.




## I Gysylltu â Barcud

### Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030
Pwyswch 1 am Gymraeg
Pwyswch 2 am Saesneg

### Drwy’r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

### Ar-Lein

barcud.cymru
Llenwch y ffurflen ‘cysylltu â ni’ sydd ar ein gwefan

Barcud

@taibarcud

post@barcud.cymru
(ymholiadau cyffredinol)

consent@barcud.cymru
(unrhyw gwestiynau am gydsyniad)

## Digwyddiadau “Cwrdd â’r Tîm”

Yn ystod misoedd yr haf, rydym wedi bod yn cynnal digwyddiadau “Cwrdd â’r Tîm” mewn amryw leoliadau ar draws Powys a Cheredigion.

Roedd staff ar gael i sgwrsio ym mhob digwyddiad – staff o’r gwasanaeth Tai, y gwasanaeth Cynnal a Chadw a’r gwasanaeth Cynnwys Tenantiaid ac o’r Tîm Arwain.




Diolch i’r tenantiaid a ddaeth i ddweud helô ac i sgwrsio â ni. Roedd yn braf eich gweld.

Os hoffech “Gwrdd â’r Tîm” ar eich ystâd chi, cysylltwch â ni drwy anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030

Mae cael un bath neu gawod yn cynhyrchu 2 beint o wlybaniaeth

Henffych, gyd-denantiaid.

Mae'n hydref unwaith eto, ac rwy'n fy nghlywed fy hun yn gofyn i ble'r aeth yr haf? Mae'n debyg mai nid fi yw'r unig un. Rwy'n gwybod bod Barcud eisoes yn cael galwadau am leithder a llwydni. Os oes gennych unrhyw bryderon am leithder a llwydni yn eich cartref yn ystod y misoedd nesaf, cofiwch gysylltu â Barcud. Bu'r Grŵp Monitro yn gweithio'n agos gyda Barcud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar y mater hwn. Rydym wedi helpu Barcud i ddylunio'r gwasanaeth a'i weithdrefnau gofynnol.



Ar 21 Medi, cafodd Cynhadledd i Denantiaid Barcud eleni ei chynnal gan y Grŵp Monitro yn y Drenewydd. Y thema eleni oedd "Dewch i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth". Bu tri o aelodau'r Grŵp Monitro, sef Janet, Anita a Peter, yn sôn am rai o'u gweithgareddau yn y Grŵp; bu Sue Thomas (Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid) yn sôn am y modd y gall tenantiaid gael eu cynnwys; a bu Llyr Edwards (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol) yn sôn am y modd y mae tenantiaid wedi helpu'r Gymdeithas i ddylunio a darparu ei gwasanaethau. Bûm innau'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Grŵp Monitro ar gyfer 2022-23 ac yn lansio canllaw newydd i'r Grŵp, a grëwyd gennym yn ystod yr haf. Mae'r ddwy ddogfen i'w gweld ar wefan Barcud neu gallwch gysylltu â Barcud i ofyn am gopi.

Roedd yn braf gweld cymaint o denantiaid o Bowys a Cheredigion yn bresennol, yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau o staff. Hoffwn ddiolch i bawb am ddod, a diolch yn arbennig i'n cyd-denantiaid am ganiatáu i'r Grŵp Monitro gynrychioli eu buddiannau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Diolch o galon i'r rhai a roddodd gyflwyniadau eleni, yn enwedig gan mai hwn oedd y tro cyntaf i lawer ohonynt roi cyflwyniad yn gyhoeddus.

Os ydych yn dilyn tudalen Barcud ar Facebook, efallai i chi weld bod Steve Jones (Prif Weithredwr Grŵp Barcud) wedi symud ymlaen i fwynhau heriau nwydd. Steve oedd dewis y tenantiaid ar gyfer swydd Prif Weithredwr Tai Ceredigion a swydd Prif Weithredwr Barcud, oherwydd y gwerth yr oedd yn ei roi ar gynnwys tenantiaid ac ar ddarparu gwasanaethau a gâi eu dylunio gan denantiaid.

Gyda chymorth diflino'r amryw Dimau a'u Cyfarwyddwyr, Barcud sydd erbyn hyn yn arwain y sector o safbwynt cynnwys tenantiaid. Ar ran pawb sydd wedi gweithio gyda Steve, ac yn enwedig y tenantiaid, hoffwn ddiolch iddo am y sylfeini y mae wedi'u gosod ac y gallwn i gyd adeiladu arnynt wrth i ni symud ymlaen.

Yn olaf, cofiwch fwrw golwg ar Adroddiad Blynyddol y Grŵp Monitro ac ar ein canllaw newydd i'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn cynrychioli buddiannau ein cyd-denantiaid. Os hoffech ymuno â ni neu gael eich cynnwys yng ngwaith Barcud, cysylltwch â Sue Thomas ac Alisa Cakebread ar 0300 111 3030.

Cymerwch ofal a phob hwyl.

Paul Clasby, Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud.

# Cynhadledd i Denantiaid

Cafodd y Gynhadledd i Denantiaid a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Barcud eu cynnal yn y Drenewydd ar 21 Medi. Roedd yn braf gweld cymaint yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad.



Roedd Cynhadledd y bore, a drefnwyd gan Grŵp Monitro Barcud, yn gyfle i ddangos y gwaith y mae'r Grŵp a Barcud yn ei wneud. Roedd hefyd yn gyfle i denantiaid fynychu a gofyn cwestiynau, siarad â'r staff a chael eu cynnwys yng ngwaith parhaus y Grŵp Monitro.

Cafodd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Barcud ei gynnal wedyn yn y prynhawn. Roedd yn galonogol gweld tenantiaid, staff, aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid yn dangos diddordeb yng ngwaith y Gymdeithas.

# MYND I'R AFAEL AG ANWEDD

Pan fydd gormod o wlybaniaeth yn yr aer yn eich cartref, bydd yn troi'n ddŵr ar arwynebau oer megis ffenestri, drysau a hyd yn oed waliau. Os na chaiff ei drin, gall yr anwedd achosi llwydni.

## Mae pedwar prif ffactor yn achosi anwedd:

- Gormod o wlybaniaeth yn yr aer
- Dim digon o awyru
- Arwynebau oer
- Tymheredd sy'n amrywio

## Ffyrdd o leihau anwedd:

Awyrwch eich cartref drwy agor y ffenestri - mae eu cilagor yn ddigon - a sicrhewch eich bod yn defnyddio unrhyw ffaniau echdynnu.

Defnyddiwch y system wresogi'n gywir. Mae'n well cadw'r gwres ymlaen ar lefel isel yn ystod cyfnodau oer er mwyn atal y tymheredd rhag newid yn sydyn.

Defnyddiwch drapiau gwlybaniaeth sy'n cynnwys crisialau.

Ceisiwch leihau'r gwlybaniaeth sydd yn yr aer:

- *Peidiwch â sychu dillad ar wresogyddion*
- *Cadwch y caeadon ar sosbenni pan fyddwch yn coginio*
- *Pan fyddwch yn cael bath/cawod, defnyddiwch y tap dŵr oer yn gyntaf*
- *Sicrhewch fod peiriannau sychu dillad yn cael eu hawyru'n iawn*
- *Caewch y drws pan fyddwch yn coginio neu'n cael bath/cawod*

# Cyngor am Ddiogelwch Tân

### Rheoli drysau tân

- ◊ Dylai drysau tân gael eu cadw ar gau pan na fyddant yn cael eu defnyddio, er mwyn atal tân, gwres a mwg rhag ymledu ac er mwyn diogelu'r llwybr dianc.
- ◊ Ni ddylai tenantiaid na'u gwesteion ymyrryd â dyfais sy'n galluogi drws i gau ohono'i hun - diben dyfais o'r fath yw sicrhau bod y drws tân yn cau yn y modd cywir ac ar y cyflymder cywir i selio'r ardal sydd wedi'i hadrannu.
- ◊ Dylai tenantiaid roi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol yn syth am unrhyw ddiffyg neu ddifrod.
- ◊ Rhowch wybod am unrhyw ddiffygion neu ddifrod i'r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0300 111 3030

### Cynghorion am ddiogelwch wrth goginio

- ◊ Cymerwch ofal ychwanegol os oes angen i chi adael y gegin – tynnwch sosbenni oddi ar y gwres neu trowch y gwres i lawr er mwyn osgoi unrhyw berygl o dân.
- ◊ Sicrhewch nad yw coesau sosbenni yn sticio allan – ac na fyddant, felly, yn cael eu bwrw oddi ar y stôf.
- ◊ I atal y larymau tân rhag dechrau canu yn eich cartref pan fyddwch yn coginio, fe'ch cynghorir i gadw drws y gegin ar gau. Bydd hynny'n atal stêm a mwg rhag ymledu i rannau eraill o'r eiddo.
- ◊ Cadwch lieiniau sychu llestri yn ddigon pell o'r popty a'r hob.
- ◊ Gwiriwch fod y popty wedi'i ddiffodd pan fyddwch wedi gorffen coginio. Byddwch yn ofalus gyda phopeth trydanol.

### Beth y dylech ei wneud os bydd sosban yn mynd ar dân

- ◊ Peidiwch â chymryd unrhyw risgiau. Diffoddwch y gwres os yw'n ddiogel i chi wneud hynny a pheidiwch byth â mynd i'r afael â'r tân ar eich pen eich hun
- ◊ Ffoniwch y frigâd dân yn syth.
- ◊ Peidiwch byth â thaflu dŵr ar y sosban

### Pan fyddwch yn mynd i'r gwely

- ◊ Sicrhewch fod unrhyw offer trydanol wedi'u diffodd
- ◊ Caewch y drysau i gyd
- ◊ Sicrhewch fod y grisiau a'r llwybrau dianc yn glir ac nad oes dim byd yno y gallech faglu drosto
- ◊ Sicrhewch eich bod yn gwybod ble mae'r allweddi, os bydd eu hangen

## Casglu Sbwriel a Diwrnodau Sgip

Rydym wedi bod yn brysur yn ystod yr haf a dechrau'r hydref yn casglu sbwriel ac yn cynnal diwrnodau sgip ar draws y rhanbarth.




Ddechrau mis Awst, cawsom ddigwyddiad "Cwrdd â'r Tîm" a "Diwrnod Sgip" llwyddiannus iawn yng Ngwêl Afon, Penparcau.

Gwnaethom lenwi dwy sgip yn eithaf cyflym, ac roedd yn wych gweld yr holl denantiaid a ddaeth i gael gwared â'u heitemau diangen yn helpu ei gilydd.

Roedd staff wrth law hefyd i helpu ac i siarad â thenantiaid am unrhyw beth a oedd yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw, tai neu gymhorthdal incwm.

At hynny, gwnaethom gasglu sbwriel tra oeddem yno. Roedd yn braf gweld yr ystâd yn edrych yn lân ac yn daclus.

Diolch i'n holl denantiaid a ddaeth allan i helpu, yn enwedig Molly Reid a Jack (ei mab 10 oed) o Faes Brenin. Gwnaethant ymroi'n llwyr i'r gwaith gan afael mewn teclyn addas a mynd o amgylch yr ystâd i gasglu sbwriel. Maent yn esiampl wych i ni i gyd.

Mae sychu dillad yn eich cartref yn cynhyrchu 9 peint o wlybaniaeth

## Enillwyr y Gystadleuaeth

Gwnaethom gynnal 5 diwrnod o hwyl am ddim i'r teulu ar draws Ceredigion a Phowys rhwng mis Mai a mis Awst.

Cafodd yr holl denantiaid a ddaeth i fwynhau'r hwyl a'r gemau gyfle am ddim i ennill gwobrau, sef talebau siopa ar gyfer y stryd fawr.

Roedd 3 gwobr ar gael;
1af £100, 2il £75, 3ydd £50

Yn ddiweddar, tra oeddem mewn cyfarfod ym Mro Teifi, un o'n Cynlluniau Tai Gwarchod, gwnaethom ofyn i rai cyd-denantiaid dynnu enwau.

Yr enillwyr lwcus oedd;

**1af - Miss Humphreys, Penparcau**
**2il - Mr Gethin, Penparcau**
**3ydd - Miss Russell, Penparcau**

Waw, rhaid mai Penparcau yw'r lle mwyaf lwcus i fyw ynddo! Am gyd-ddigwyddiad!

Cawsom neges ebost gan enillydd lwcus y wobr gyntaf, Miss Humphreys, a ddywedodd: "Waw, cefais syrpréis hyfryd yn y post y bore 'ma. Diolch o galon."




## Cymorth i Denantiaid gyda Chanser

Gall tenantiaid sy'n byw gyda chanser gael gafael ar gymorth yn nes at adref, diolch i raglen a ariennir gan Gymorth Canser Macmillan. Nod y rhaglen Gwella'r Daith Canser ym Mhowys yw cynnig cymorth i unrhyw un ym Mhowys sy'n cael diagnosis o ganser. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n gofalu am un o'u hanwyliaid.

Mae Ymddiriedolaeth Bracken, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Credu, tîm Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y cyngor, a'r tîm Cynghori Ariannol i gyd yn cynorthwyo pobl gymaint ag y gallant gyda pha bryderon bynnag a allai fod ganddynt ar ôl cael diagnosis. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd yn bartner allweddol.

Gan nad oes ysbyty dosbarth ym Mhowys, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl deithio allan o'r sir i gael profion a thriniaeth.

Gall y sawl sy'n byw gyda chanser gysylltu'n uniongyrchol â'u honcolegydd, eu meddyg ymgynghorol neu nyrs glinigol arbenigol i drafod eu holl anghenion meddygol, ond gallant deimlo'n ansicr yn aml ynghylch ble mae cael help gyda phethau ymarferol.

Mae help ar gael, boed i gasglu presgripsiynau, gwneud cais am fathodyn glas, cael gwybod am gludiant i'r ysbyty mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, bodloni dymuniad i gael rhywfaint o gymorth emosiynol, neu oherwydd bod angen rhywun i fynd â'r ci am dro yn ystod triniaeth.

# Budd Cymunedol

Yn ystod yr haf, gofynnodd grŵp o denantiaid William Ainge Court i Barcud a allem ddarparu arian i brynu dodrefn patio er mwyn iddynt allu cwrdd yn eu cwrt hyfryd. Bu modd i ni wneud hynny o ganlyniad i gyllid gan ein Cronfa Budd Cymunedol. Os oes gennych chi syniad a allai fod o fudd i'ch cymuned, yn eich barn chi, mae croeso i chi gysylltu a siarad ag Alisa Cakebread - Swyddog Cynnwys Tenantiaid. Swm cyfyngedig o arian sydd yn y gronfa bob blwyddyn, felly y cyntaf i'r felin yw hi o ran ceisiadau. Cysylltwch â ni drwy anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030.



Mae dau berson sydd gartref drwy'r dydd yn cynhyrchu 3 pheint o wlybaniaeth

# Clychau Drysau Ring

Pan fyddwch yn defnyddio clychau drysau Ring yn y DU, mae yna ddeddfwriaeth a chanllawiau penodol y dylech wybod amdanynt er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn parchu hawliau preifatrwydd. Mae Barcud yn gofyn i chi geisio caniatâd cyn gosod cloch drws Ring neu unrhyw systemau teledu cylch cyfyng eraill yn eich cartref. Mae hynny'n sicrhau eich bod yn hollol ymwybodol o'ch cyfrifoldebau dan y gyfraith. Dim ond at ddiben gweithgarwch cartref neu weithgarwch personol y dylai clychau drysau fideo gael eu defnyddio, h.y. i ffilmio eiddo preifat unigolyn. Gall hynny gynnwys stepen drws, gardd, lôn, sied neu garej yr unigolyn. Fodd bynnag, ni ellir eu defnyddio i ffilmio eiddo y mae pobl eraill yn berchen arno, e.e. drysau ffrynt pobl eraill a drysau ffrynt, gerddi neu lonydd a rennir. Os cânt eu defnyddio'n gywir, nid yw clychau drysau fideo yn rhwym wrth ddeddfau diogelu data. Fodd bynnag, nid yw llawer o bobl yn defnyddio'r dyfeisiau yn gywir, e.e. fel yn achos Fairhurst v Woodard lle'r oedd defnyddio'r gloch drws fideo, mewn anghydfod rhwng cymdogion, yn gyfystyr ag aflonyddu, achosi niwsans a gweithredu'n groes i ddeddfau diogelu data.

Dyma ganllaw cynhwysfawr i'ch helpu wrth ddefnyddio clychau drysau Ring:

1. Dylech ofyn bob amser am ganiatâd Barcud cyn gosod cloch drws Ring neu unrhyw gyfarpar teledu cylch cyfyng: Rhaid i chi ofyn i'ch landlord am ganiatâd cyn gosod cloch drws Ring neu unrhyw system teledu cylch cyfyng arall. Mae gan Barcud ffurflen gais a thaflen ffeithiau ddefnyddiol i'ch helpu i benderfynu ai cloch drws Ring yw'r opsiwn cywir.
2. Dylech hysbysu unigolion bod recordio'n digwydd: os yw eich cloch drws Ring yn recordio mannau cyhoeddus ar fideo, mae'n hanfodol eich bod yn arddangos hysbysiad sy'n rhoi gwybod i unigolion eu bod yn cael eu recordio. Dylai'r hysbysiad fod yn amlwg iawn ac yn ddarllenadwy, a dylai nodi bod gwyliadwriaeth drwy gyfrwng fideo'n digwydd.
3. Dylech gydymffurfio â gofynion Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Os ydych yn recordio delweddau o fannau cyhoeddus, byddwch yn dod yn gyfrifol am drin y data sydd wedi'i recordio. Dylech sicrhau bod unrhyw ddata personol a gesglir gan eich cloch drws Ring yn cael ei brosesu a'i storio mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae hynny'n cynnwys cymryd camau priodol i ddiogelu'r data, a chael rheswm dilys dros ei gasglu a'i brosesu.
4. Dylech osgoi recordio ardaloedd preifat: Dylech osgoi cyfeirio camera'r cloch drws

# Holiadur Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant


Mae holiadur Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i amgáu gyda'r llythyr newyddion hwn, sydd i'w lenwi gan bob tenant a enwir yn y cytundeb tenantiaeth/contract, ac mae amlen radbost wedi'i hamgáu er mwyn anfon yr holiadur yn ôl. Bydd pawb sy'n llenwi ac yn dychwelyd ffurflen erbyn 15 Ionawr 2024 yn cael cyfle i ennill taleb siopa gwerth £200! Gallai fod yn ddefnyddiol iawn ym mis Ionawr!

Rydym am sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion ein holl denantiaid. Gall darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani ein helpu i wneud hynny. Mae Barcud wedi ymrwymo'n llawn i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a gyda'ch help chi gallwn wella ein gwasanaethau i bawb.

Bydd unrhyw wybodaeth ar y ffurflen yn cael ei thrin yn gyfrinachol, gan lynu wrth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol yn unig.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn llenwi'r ffurflen ac yn ei hanfon yn ôl atom erbyn 15 Ionawr 2024.




Mae coginio a defnyddio'r tegell yn cynhyrchu 6 pheint o wlybaniaeth

Mae golchi llestri yn cynhyrchu 2 beint o wlybaniaeth

# Clychau Drysau Ring

Ring at ardaloedd preifat, e.e. eiddo cyfagos neu du mewn cartrefi pobl eraill, oherwydd gellid barnu eich bod yn tarfu ar breifatrwydd rhywun wrth wneud hynny.

5. Dylech analluogi'r cyfleuster recordio sain (os oes raid): Byddwch yn ofalus wrth recordio sain â'ch cloch drws Ring. Cymerwch eich bod yn bwriadu recordio sgyrsiau neu sain o ardaloedd cyhoeddus. Os felly, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd penodol gan y sawl sy'n cael eu recordio, oherwydd caiff sain ei ystyried yn ddata sensitif.
6. Dylech barchu hawliau cymdogion a phobl sy'n pasio: Byddwch yn ystyriol o hawliau preifatrwydd eich cymdogion, ac osgowch recordio delweddau diangen o bobl sy'n pasio ar ffyrdd cyhoeddus neu balmentydd. Gosodwch y camera fel bod ei ffocws ar eich eiddo chi'n unig a'r ardal sy'n agos i'r camera.
7. Dylech sicrhau bod mynediad i'ch cyfrif Ring wedi'i ddiogelu: Defnyddiwch gyfrineiriau cryf, unigryw i warchod eich cyfrif Ring, a galluogwch drefn ddilysu â dau ffactor er mwyn atal mynediad heb awdurdod i borthiant a recordiadau eich camera.
8. Dylech ddeall yr "hawl i fynd yn angof": Mae'n bosibl y bydd gan unigolion a gaiff eu recordio ar eich cloch drws Ring yr hawl i ofyn mewn rhai amgylchiadau am i'w data personol gael ei ddileu. Dylech ymgyfarwyddo ag egwyddor yr "hawl i fynd yn angof" ac ymateb yn briodol i geisiadau o'r fath.
9. Rhannu data â thrydydd partïon a storio data: Os ydych yn bwriadu rhannu delweddau cloch drws Ring â thrydydd partïon neu'u storio yn allanol, byddwch yn ymwybodol o'r risgiau posibl a sicrhewch fod y trydydd partïon yn cydymffurfio â rheoliadau diogelu data.


Pan ddaw'n fater o ddefnyddio delweddau cloch drws fideo mewn achosion cyfreithiol, nid yw'r sefyllfa mor glir. Yr ystyriaethau allweddol fydd diben y teledu cylch cyfyng a chymhelliad y person sydd ag ef, pa bobl sydd wedi'u recordio yn y delweddau, natur a graddau unrhyw darfu, a difrifoldeb yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a recordiwyd. Mae'n faes aneglur lle bydd achosion yn cael eu hystyried yn unigol. O gofio bod clychau drysau fideo'n dod yn bethau mwyfwy cyffredin, mae'n debygol y bydd y mater hwn yn rhywbeth a fydd yn destun achosion cyfreithiol yn y dyfodol. Nid yw'r canllaw hwn yn un cyflawn, ac mae'n hanfodol eich bod yn gofyn am gyngor cyfreithiol neu'n mynd i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth y DU ynghylch defnyddio clychau drysau Ring a dyfeisiau gwylio eraill.


# Cystadleuaeth Lluniau o Erddi 2023

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth lluniau o erddi eleni. Meddai'r beirniaid: "Roedd y safon yn eithriadol o uchel ac yn tystio i ddawn, creadigrwydd ac ymroddiad pob un o'r preswylwyr sy'n garddio."

Rhaid bod cael popeth i edrych mor bert am gyfnod mor hir yn wirioneddol anodd. Diolch i Glwb Garddio'r Drenewydd a gytunodd i feirniadu'r gystadleuaeth i ni. Cadwyd pob ymgais yn ddienw, a dywedodd y beirniaid fod sawl ymgais yn wirioneddol ardderchog a'u bod wedi gorfod gwneud ambell benderfyniad anodd er mwyn dewis yr enillwyr. Ni allem fod wedi cynnal y gystadleuaeth heb eu cefnogaeth a'u harbenigedd nhw.
















Bydd enillwyr pob categori yn cael tystysgrif am eu gwaith caled yn eu gerddi ac yn cael talebau gwerth £50 i'w gwario mewn canolfannau garddio ledled y wlad. Mwynhewch y gwario! Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd.

| | |
|---|---|
| Categori 1 | Best Arddangosfa Flodau Orau (gardd breifat) - Mr Byron Thomas, Llechryd |
| Categori 2 | Basged grog, llestr blodau neu flwch ffenestr gorau - Mr a Mrs Hodges, Llanandras |
| Categori 3 | Gardd lysiau orau - Mr Byron Thomas, Llechryd |
| Categori 4 | Arddangosfa flodau orau mewn llestr anarferol - Mrs Dorothy Morrow, Llandysul |
| Categori 5 | Nodwedd orau sy'n garedig i bryfed neu'r amgylchedd/bywyd gwyllt mewn gardd (i rai dan 16 oed) - Lwsi Williams, Y Drenewydd |
| Categori 6 | Gardd orau mewn cynllun tai gwarchod - Martin Lewis, Llandysul |
| Categori 7 | Gardd gymunedol orau (nad yw mewn cynllun) - Mr Jim Hughes, Y Drenewydd |

# Sgamiau

Mewn oes lle mae technoleg yn ein cysylltu ag eraill yn fwy nag erioed o'r blaen, mae'r dechnoleg hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer y sgamwyr a'r galwyr digroeso sy'n ceisio camfanteisio ar unigolion diniwed. Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus ac yn ofalus wrth ymdrin â galwadau ffôn, negeseuon ebost neu negeseuon digroeso.

Yn aml, bydd sgamwyr yn esgus bod yn sefydliadau dibynadwy, yn asiantaethau'r llywodraeth, neu hyd yn oed yn unigolion yr ydych yn eu hadnabod, ac yn defnyddio tactegau perswadiol i'ch twyllo i rannu gwybodaeth bersonol neu roi arian yr ydych wedi gweithio'n galed i'w ennill. I'ch diogelu eich hun, dylech wirio bob amser pwy yn union yw'r sawl sy'n galw neu'n anfon rhywbeth, dylech osgoi rhannu gwybodaeth sensitif oni bai eich bod yn siŵr bod yr unigolyn dan sylw'n berson ddidwyll, a dylech fod yn effro i unrhyw dactegau lle mae rhywun yn rhoi llawer o bwysau arnoch. Cofiwch, gall neilltuo eiliad i wirio pwy yw rhywun eich arbed rhag cael eich sgamio, a sicrhau eich diogelwch ariannol a phersonol.

## Oriau Swyddfeydd Dros y Nadolig

**Yn ogystal â bod ar gau ar y gwyliau banc arferol dros gyfnod yr ŵyl, bydd swyddfeydd Barcud ar gau hefyd am dridiau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (ar 27, 28 a 29 Rhagfyr).**


**Yn ôl yr arfer, bydd ein gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith yn darparu cymorth 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos er mwyn ymdrin â materion brys pan fydd ein swyddfeydd ar gau. Dylech roi gwybod am unrhyw fater brys drwy ffonio rhif arferol y Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid, sef 0300 111 3030, a bydd ein timau sydd ar alwad yn gallu eich helpu.**


**I gael mwy o wybodaeth am ddiffiniadau ac am arweiniad ar faterion brys y tu allan i oriau gwaith, ewch i'n gwefan: bit.ly/47I7jTj**

**Os nad yw'r mater yn un brys, dylech gysylltu â ni o 2 Ionawr 2024 ymlaen.**

**Nadolig Llawen oddi wrth bawb yn Barcud.**

# Y Ffliw a Covid – Y Diweddaraf am Frechiadau




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atgoffa pawb cymwys i gael eu brechiadau rhag y ffliw a COVID-19 y gaeaf hwn, cyn gynted ag y byddant yn cael eu cynnig.

Mae'r ddau afiechyd anadlol yn rhai sy'n ffynnu yn ystod y gaeaf. Cael brechiad yw un o'r ffyrdd gorau o hyd o'ch gwarchod eich hun rhag y clefydau hyn sy'n gallu bod yn ddifrifol.

Mae'r bobl sy'n gymwys i gael y ddau frechiad yn cynnwys y canlynol;

◊ Pobl dros 65 oed
◊ Menywod beichiog
◊ Pobl 6 mis i 64 oed sy'n perthyn i grwpiau risg glinigol
◊ Gofalwyr 16 oed a hŷn
◊ Pobl ag anabledd dysgu
◊ Pobl sy'n byw gyda rhywun â system imiwnedd wan (o 12 oed i fyny yn achos COVID-19 ac o 6 mis oed i fyny yn achos y ffliw)

Mae rhaglen eleni ar gyfer brechu rhag y ffliw a rhoi brechiad atgyfnerthu'r hydref rhag COVID-19 wedi dechrau ar draws Cymru. Dylai pobl gael gwahoddiad gan eu bwrdd iechyd lleol.

Fel yr esbonia Dr Christopher Johnson, Pennaeth Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Gall y ffliw fod yn ddifrifol. Mae'n hysbys mai cael brechiad rhag y ffliw bob blwyddyn yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o'ch gwarchod eich hun rhag y ffliw. Yn yr un modd, mae brechiad atgyfnerthu'r hydref rhag COVID-19 yn gwella'r graddau y cewch eich gwarchod rhag salwch difrifol."

I gael gwybod mwy am bwy sy'n gymwys, ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: bit.ly/40qqKgS

# Tudalen Y Plant

## Enillwyr y gystadleuaeth ddarlunio

Rhifyn yr haf: Llongyfarchiadau i Zoe B o'r Ystog, Powys ar ennill ein cystadleuaeth ddarlunio yn rhifyn yr haf o Newyddion Barcud. Gobeithio dy fod yn hoffi'r llyfr coginio!



Rhifyn y gwanwyn: Yr enillydd lwcus oedd Benjamin (8 oed) o'r Drenewydd, a anfonodd lun hyfryd o'i dŷ, gyda'i fam a'i dad a fe yn ffenestri'r tŷ a'i ffrindiau, sef "Raffy" y jiráff ac "Ethel" yr eliffant, yn yr ardd gefn.

Roedd hyd yn oed aderyn bach ar dop y tŷ wedi galw heibio i ddweud helô!

Mae Benjamin yn hoff iawn o ddarlunio a gwneud unrhyw beth creadigol, felly roedd wrth ei fodd â'i wobr, sef deunyddiau gwaith crefft a lliwio.

Da iawn, Benjamin, rydym yn dwlu ar dy lun!



- Lliwiwch y pyped
- Torrwch y pyped a'r ddau stribed allan
- Gwnewch blygiadau ar hyd y llinellau doredig
- Gludwch y dolenni i ochr isaf y pyped

